YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

17 Ebrill 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Dechrau tymor yr haf**
Edrychwn ymlaen at ddechrau'r tymor newydd ac i groesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol ddydd Llun 17eg Ebrill (wythnos 1). Rydym yn atgoffa pob disgybl i fod yn brydlon i'r ysgol bob bore ac yn gofyn yn garedig i bob myfyriwr fod ar y safle erbyn 8.30am bob dydd.

**Cyngerdd Urdd Glantaf 18/5/23**
Fel y soniwyd yn ein cylchlythyr diwedd tymor, rydym yn falch iawn bod cymaint o ddisgyblion wedi llwyddo a gwneud argraff mor gryf yn yr Eisteddfodau Sir. Mae'n bleser gennym felly eich gwahodd i gyngerdd arbennig Eisteddfod Urdd yn neuadd yr ysgol ar nos Iau 18fed o Fai, lle byddwn yn mwynhau doniau disgyblion Glantaf mewn cyngerdd steil *cabaret* anffurfiol gyda bar a lluniaeth o blatiau sawrus. Bydd tocynnau ar gael ar ParentPay o ganol dydd, Iau 20 Ebrill am £3 (oedolion) a phlant (£1), a byddant yn gyfyngedig i 4 i bob teulu (yn y lle cyntaf). Mae oddeutu 180 o docynnau ar gyfer y gyngerdd hon, felly cyntaf i'r felin ...

**Gwelliannau i'r campws**
Rydym yn falch bod nifer o addasiadau wedi'u gwneud dros wyliau'r Pasg gan gynnwys gosod dodrefn ystafell ddosbarth newydd a phaentio nifer o'n hystafelloedd dosbarth. Rydym hefyd wedi ailwampio ein hystafelloedd newid Add Gorff i greu Stiwdio Ddawns newydd sbon, ystafell ddosbarth newydd yn yr Academi Rygbi a gwella ein storfa ar gyfer offer Chwaraeon. Roedd hi'n hyfryd hefyd croesawu Mrs Anne Boore a rhai aelodau o'r teulu i weld un o'n ystafelloedd newydd, *Ystafell waith Roger Boore,* yn ystod y tymor diwethaf. Mae'r ystafell yn nodi cyfraniad pwysig Mr Boore i Gymru, drwy sefydlu *Gwasg y Dref Wen*, tŷ cyhoeddi oedd yn arloesi ym myd llyfrau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc.


*Mrs Anne Boore a'i theulu yn ymweld â Glantaf yn ddiweddar*

**Ffonau symudol yn yr ysgol**
Unwaith eto rydym yn gofyn yn garedig i chi ein cefnogi gyda defnydd disgyblion o ffônau symudol yng nghymuned yr ysgol. Yn anffodus, mae angen i ni ailadrodd rhai negeseuon cryf ynglŷn â chamddefnydd o ffonau, gan ein bod wedi gweld cynnydd yn eu defnydd yn ogystal â defnyddio camerâu i ffilmio disgyblion a staff heb eu caniatâd. Ar ben hynny, mae defnyddio ffonau symudol i gyfathrebu negeseuon diflas ar gyfryngau cymdeithasol yn llawer rhy gyffredin ac mae hyn ag effaith uniongyrchol ar iechyd meddwl a lles unigolion. Gofynnwn i chi siarad â'ch plant ynghylch eu defnydd, gan eu cefnogi i roi gwybod am achosion o gamddefnydd ac i ddefnyddio eu ffonau'n ddiogel a gyda aeddfedrwydd bob amser



**Gwisg ysgol**




*Dymuniadau gorau i dim XV Bl9 yn rownd derfynol ysgolion Prydain Sportsmag v Ysgol Rygbi ar 19eg o Ebrill – Amdani Glantaf!*

Wrth i ni ddechrau'r tymor newydd gallwn atgoffa pob disgybl i wisgo gwisg ysgol gywir i'r ysgol bob dydd. Os oes unrhyw deuluoedd neu unigolion yn wynebu trafferthion ynghylch y wisg, cysylltwch â ni neu ewch draw i dudalen *Facebook* Glantaf ar gyfer yr eitemau sydd eu hangen. Mae gennym hefyd stoc fawr o wisg o ansawdd da yn yr ysgol, ac os ydych chi'n gallu cyfrannu eitemau (yn enwedig dillad Add Gorff mewn cyflwr da) tynnwch unrhyw frodwaith o enwau personol, a chysylltu â ni yn yr ysgol. Mae dechrau tymor hefyd yn gyfle da i wirio bod eich plentyn a'r offer cywir ar gyfer gwersi: ysgrifbinau, pensiliau, pren mesur ac ati. Diolch am eich cefnogaeth ymarferol yn sicrhau'r materion bychain rhain sy'n gwneud bywyd yn rhwyddach i'ch plentyn mewn gwersi o ddydd i ddydd.

***Safwm*, Ymprydio yn ystod mis Ramadan**

Dymunwn yn dda i'n teuluoedd Mwslimaidd yn ystod ympryd *Saum* yn mis Ramadan a'r holl ddisgyblion hynny a fydd yn cadw holl neu rai agweddau o'r ympryd. *Bydd Eid ul Fitr*, gwyl diwedd *Saum* yn cael ei ddathlu ar 21 Ebrill*. Eid Mubarak!*

**TGAU ac Arholiadau Uwch Gyfrannol**

Bydd arholiadau TGAU ac UG yn dechrau ar 12 o Fai gyda'r diwrnod olaf o ddysgu ar gyfer Bl11&12 ddydd Gwener 12 Mai. Sylwer bydd Bl12 yn dychwelyd i wersi yn dilyn eu harholiadau ddydd Llun y 12fed o Fehefin.

**Cinio Ysgol**

Nodyn i'ch atgoffa y bydd yr opsiwn *Pryd y Dydd* yn cynyddu'r tymor hwn o'r £3.05 presennol i £3.20 i holl ddisgyblion oed uwchradd.

**I gloi**:

Hyfryd clywed mai Stefan Bridle (Blwyddyn 13 Haf 2022) enillodd y marc uchaf y arholiadau Safon Uwch Daearyddiaeth y llynedd ac felly mae wedi derbyn cydnabyddiaeth o'i gyflawniad gan y *Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol*. Nodyn i'ch atgoffa hefyd o'r noson Bingo a Pitsa ar y 22ain o Ebrill i godi arian ar gyfer y daith chwaraeon i Dde Affrica - tocynnau ar gael ar ParentPay!

Yn gywir

MHT Evans

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf




*Glantaf dan14: Enillwyr Plât Urdd / URC 2023!*